



South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
De Cymru



EICH HEDDLU • EICH ARIAN

YOUR POLICE • YOUR MONEY

Cost yr Heddlu ar ei Hisaf yng Nghymru

Ar gyfer 2014-2015, bydd elfen yr heddlu o'r dreth gyngor yn cynyddu 5% (2½c y dydd, neu £9.06 y flwyddyn i aelwyd Band D). Mae hynny'n gyfystyr â £190.34 y flwyddyn am wasanaeth heddlu sydd ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Dywedodd Mr Michael: "Mae pennu'r praesept yn ymwneud â sicrhau bod gan yr heddlu yr adnoddau i wneud eu gwaith, sef amddiffyn y cyhoedd a lleihau troseddau, heb ofyn i'r cyhoedd dalu mwy nag sydd ei angen. Y broblem yw bod y Llywodraeth wedi torri Grant Canolog yr Heddlu yn ddirugaredd.

"Bydd deiliaid tai yng ngweddill Cymru yn talu mwy am yr heddlu na deiliaid tai yn ne Cymru. Mae'n costio bron £40 yn fwy yng ngogledd Cymru nag yn ne Cymru, er enghraifft. Mae'r cynnydd yn nhâl eleni yn gymedrol ac yn fach o'i gymharu â'r arian rydym ni'n ei gollu trwy doriadau Llywodraeth Ganolog."

"Mae Heddlu De Cymru eisoes wedi wynebu toriadau o £26 miliwn rhwng 2011 a 2014. Rydym ni bellach yn wynebu £5.3 miliwn arall o doriadau. Mae'r toriadau llym a niweidiol hyn yn ddigynsail mewn plismona ym Mhrydain. Mae'n hollbwysig bod y Swyddfa Gartref a'r Canghellor yn ailystyried eu dull o ariannu gwasanaeth yr heddlu.

"Ers yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn 2010, mae'r Llywodraeth wedi gwrthdroi dau ddegawd o fuddsoddiad yng ngwasanaeth yr heddlu, a'r gwir yw bod hyn yn warthus. Yr hyn na ellir ei danamcangyfrif yw'r cyfraniad enfawr a wnaed gan Lywodraeth Cymru at ddiogelwch cymunedol. Mae eu cyfraniad hwy wedi gwella cysylltiadau â chymunedau lleol yn sylweddol, trwy ariannu 206 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yn ne Cymru yn unig.

Hyd yn oed mewn cyfnod anodd, rydym yn ceisio datblygu ein gwaith ym maes lleihau troseddau. Rydym wedi adennill £2.3 miliwn o'n harian ein hunain gan y Swyddfa Gartref ar gyfer ffyrdd newydd o leihau troseddau a thrais ledled de Cymru, yn ogystal ag i roi'r offer TG sydd eu hangen ar ein heddlu lleol i wneud y gwaith. Rydym yn defnyddio'r arian i ariannu prosiectau sy'n defnyddio dull deallus o wneud mwy gyda llai er mwyn galluogi'r heddlu i ganolbwyntio adnoddau ar y meysydd lle y mae eu hangen a lleihau'r galw am yr heddlu a gwasanaethau cyhoeddus eraill trwy atal pethau gwael rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â throseddau ac aildroseddau gan y grŵp oedran 18-25 a deall ac atal troseddau treisgar.

Police Cost Lowest in Wales

For 2014-2015, the police element of council tax goes up by 5% (2½p per day, or £9.06 per year for a Band D household). That's £190.34 per year for a 24 hour, seven days a week police service.

Mr Michael said: "Setting the precept is about making sure that the police have the resources to do their job, to protect the public and cut crime, without asking the public to pay more than is necessary. The problem is that the Government has cut the Central Police Grant savagely.

"Householders in the rest of Wales will pay more for the police than householders in South Wales. In North Wales the cost is nearly £40 more than in South Wales, for example. The increase in this year's charge is modest and is small compared to the money we are losing through Central Government cuts."

"South Wales Police has already faced cuts of £26million between 2011 and 2014. We now face an additional £5.3million of cuts. These vicious and damaging cuts have never been seen before in British policing. It is imperative that the Home Office and Chancellor rethink their approach to the funding of the police service.

"Since the Comprehensive Spending Review in 2010, this Government has reversed two decades of investment in the police service, and frankly this is disgraceful. What cannot be underestimated is the enormous contribution the Welsh Government has provided to community safety. Their input has significantly improved links with local communities, by funding for 206 additional Community Support Officers in South Wales alone.

Even in tough times, we are looking to develop our work in crime reduction. We have won back £2.3million of our own money from the Home Office for new ways to cut crime and reduce violence across South Wales as well as giving our local police the IT tools they need to do the job. We are using the money to fund projects which take an intelligent approach to doing more with less to enable the police to focus resources where they are needed and reduce demand on police and other public services by preventing bad things happening in the first place. This includes tackling offending and reoffending by the 18-25 age group and understanding and preventing violent crime.

BYDD POBL YN NE CYMRU YN PARHAU I DALU LLAI O LAWER NA HEDDLUOEDD ERAILL CYMRU (FFIGURAU 2014-15):

De Cymru: £190.34 Gwent: £203.50
Gogledd Cymru: £227.61 Dyfed Powys: £210.60

Dyweddodd Mr Michael: "Sylweddolaf fod unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor yn anodd i gyhoedd De Cymru. Fodd bynnag, rwyf wedi gorfod gwneud y penderfyniad anodd er mwyn gweithredu'n gyfrifol a diogelu a chynnal gwasanaeth yr heddlu o ansawdd mewn ffordd effeithiol. Mae'r gyllideb hon yn ein caniatáu i barhau i roi pwysau ar leihau nifer y troseddau ac anhrefn, hyd yn oed mewn adegau mor anodd."

PEOPLE IN SOUTH WALES WILL STILL PAY MUCH LESS THAN THE OTHER WELSH FORCES (2014-15 FIGURES):

South Wales: £190.34 Gwent: £203.50
North Wales: £227.61 Dyfed Powys: £210.60

Mr Michael said: "I realise that any increase in council tax is difficult for the public in South Wales. However, I have had to make the difficult decision in order to act responsibly and effectively protect and maintain a high quality police service. This budget allows us to continue the downward pressure on crime and disorder, even in such difficult times."

BETH Y BYDDWCH YN EI DALU BOB BLWYDDYN:

WHAT YOU WILL PAY PER YEAR:

Band A: £126.89 Band C: £169.19 Band E: £232.64 Band G: £317.23 Band I: £444.13
Band B: £148.04 Band D: £190.34 Band F: £274.94 Band H: £380.68

CYLLIDEB REFENIW	2014-15 £000's	2013-14 £000's	REVENUE BUDGET
Cyfanswm y Gwariant Gros	285,912	287,038	Total Gross Expenditure
Incwwm	-7,817	-7,321	Income
Grantiau Eraill (Y Swyddfa Gartref)	-19,651	-21,162	Other Grants (Home Office)
Defnyddio Cronfeydd	0	0	Use of Reserves
Gofyniad y Gyllideb	258,444	258,555	Budget Requirement
Grant yr Heddlu (Y Swyddfa Gartref)	-95,844	-97,559	Police Grant (Home Office)
Grant Cymorth Refeniw (Llywodraeth Cymru)	-42,806	-42,038	Revenue Support Grant (Welsh Government)
Cyfraddau Annomestig (Llywodraeth Cymru)	-30,551	-34,592	Non-Domestic Rates (Welsh Government)
Praesept y Dreth Gyngor	89,243	84,366	Council Tax Precept
Y Dreth Gyngor ar Eiddo Band D	£190.34	£181.28	Council Tax Band D property
Cyfanswm yr Asesiad o Wariant Sefydlog gan y Llywodraeth i'r Awdurdod	214,574	218,483	Total Standing Spending Assessment by Government for the Authority

Cyllideb y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2014/15 yw £12.8 miliwn. Mae cyllid ar gael o grant cyfalaf £2.3 miliwn y Swyddfa Gartref a benthycia allanol o £1.7 miliwn, sy'n golygu bod angen cyllid mewnol neu gronfeydd cyfalaf wrth gefn o £8.8 miliwn.
 Ym mis Mawrth 2013, roedd £8.2 miliwn yn cael ei ddal yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Ym mis Mawrth 2014, amcangyfrifir y bydd £9.0 miliwn yn y gronfa wrth gefn.

The Capital programme budget for 2014/15 is £12.8M. Funding is made available from Home Office capital grant £2.3M and external borrowing of £1.7M, meaning internal financing or capital reserves of £8.8M are required.
 As at March 2013, the general reserves held was £8.2M. As at March 2014, the reserve shall be an estimated £9.0M.

Cysylltu â'r Comisiynydd

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am gynrychioli'r gymuned a gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i ddarparu gwasanaeth yr heddlu effeithiol yn Ne Cymru.

Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd, Alun Michael, mewn sawl ffordd:
 Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
 Ffôn: 01656 869366
 E-bost: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
 Gwefan: www.southwalescommissioner.org.uk
 Twitter: @commissionersw

Contact the Commissioner

The Commissioner is responsible for representing the community, and working with the Chief Constable to deliver an effective police service in South Wales.

You can contact the Commissioner, Alun Michael, in a number of ways:
 Tŷ Morgannwg, Police Headquarters, Bridgend, CF31 3SU
 Phone: 01656 869366
 Email: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
 Website: www.southwalescommissioner.org.uk
 Twitter: @commissionersw

Cysylltu â Heddlu De Cymru

Mewn argyfwng, dylech bob amser ffonio 999. Os nad yw'n argyfwng, ffoniwch 101. Gall unrhyw un sydd â nam ar ei glyw neu ei leferydd gysylltu â ni drwy ein system minicom ar 01656 656980.
 Pencadlys Heddlu De Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
 E-bost: headquarters@south-wales.pnn.police.uk
 Gwefan: www.heddlu-de-cymru.police.uk
 Twitter: @swpolice

Contact South Wales Police

In an emergency, always call 999. If it is not an emergency, please dial 101. Those with hearing or speech impairment can contact us via our minicom system on 01656 656980.
 South Wales Police Headquarters, Bridgend, CF31 3SU
 Email: headquarters@south-wales.pnn.police.uk
 Website: www.south-wales.police.uk
 Twitter: @swpolice

Unrhyw gwestiynau?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y wybodaeth yn y daflen hon, ffoniwch 01656 869366.

Any questions?

If you have any financial questions about the information in this leaflet, please contact 01656 869366.